Adnodd 6a.

# Annwyl Andy – Llythyr 1






Dwi'n 15 oed. Dwi'n teimlo'n fychan am fy oed. Dwi yn aml yn teimlo nad ydw i yn ffitio i mewn gyda gweddill fy ffrindiau sydd i weld yn fwy ac yn gryfach na mi. Dwi ddim yn deall oherwydd mae fy mrawd mawr wedi datblygu'n dda yn gorfforol am ei oed. Dwi eisiau bod fel fo a fy ffrindiau a dwi'n meddwl cymryd Steroidau i fod yn fwy.

Dydw i ddim yn gwybod llawer am Steroidau – fyddai'n syniad da i mi eu trio?

Adnodd 6a.

# Annwyl Andy – Llythyr 2







Fy enw ydi Sam, dwi wrth fy modd efo chwaraeon ac yn ddiweddar cefais fy newis ar gyfer treialon y sir. Dwi wir eisiau bod yn rhan o'r tîm ond dwi'n teimlo bod yr athletwyr eraill yn fwy ac yn gryfach na mi. Dwi'n meddwl cymryd cyffuriau i wella fy mherfformiad i roi'r hyder i mi eu herio. Pan fyddai'n hŷn dwi wir eisiau bod yn chwaraewr proffesiynol.

Fyddai hyn yn gallu difetha fy mreuddwyd?

Adnodd 6a.

# Annwyl Andy – Llythyr 3





Jack ydw i.  Dwi'n cymryd Steroidau Anabolig yn rheolaidd.  Mae hyn yn ddrud iawn.  I fy helpu i'w fforddio, dwi'n meddwl gwerthu rhai i fy ffrindiau yn y gampfa leol.

Mae hyn yn iawn tydi – oherwydd nid yw Steroidau yn gyffuriau nac ydynt?

Adnodd 6a.

# Annwyl Andy – Llythyr 4







Helo, Jenna dwi. Dwi wrth fy modd efo teledu realiti! Dwi eisiau edrych fel nhw! Dwi'n cadw'n heini bob dydd, yn gwylio beth dwi'n ei fwyta ac wrth fy modd â cholur. Ond tydi o ddim yn ddigon da; dwi dal ddim yn berffaith a dwi byth yn edrych mor dda â nhw. Dwi wedi gweld hysbyseb ar y we am dabledi deiet y mae'r 'holl' selebs yn eu cymryd.

Dwi'n meddwl eu cymryd i gael canlyniadau cyflym. Beth ydych chi'n feddwl?

Adnodd 6a.

# Annwyl Andy – Llythyr 5





Fy enw ydi Jamie.  Dwi wrth fy modd efo partïon a dwi'n eu mynychu yn rheolaidd gyda fy ffrindiau hŷn.  Dwi wedi sylwi'n ddiweddar bod genod yn dueddol o fynd am fechgyn mwy cyhyrog.  Dwi wedi trafod hyn gyda fy ffrindiau ac maent wedi dweud wrthai mai'r gyfrinach i edrych yn dda a chael y genethod i gyd ydi cymryd Steroidau a defnyddio sylweddau lliw haul.  Fyddai dim problem gan fod pawb yn ei wneud.  Mi fyddwn yn edrych yn wych ymhen dim.

Dwi'n poeni os mai hwn yw'r unig opsiwn i mi – oes yna opsiynau eraill?

Adnodd 6a.

# Annwyl Andy – Llythyr 6







Dwi mor rhwystredig! Am y ddwy flynedd diwethaf dwi wedi bod yn ail yn y gystadleuaeth strôc pili-pala 100 metr yn y Gala Nofio Cenedlaethol. Eleni mae fy hyfforddwr wedi dweud wrthyf y byddaf **yn** ennill y fedal aur. Mae wedi awgrymu y dylwn i gymryd Steroidau i helpu i gynyddu fy stamina a gwella fy mherfformiad.

Dydw i erioed wedi ystyried hyn ond mae ennill yn golygu popeth i mi. Ddylwn i ei wneud?

Adnodd 6a.

# Annwyl Andy – Llythyr 7







Yn ddiweddar mi es i ystafell fy mrawd i chwilio am DVD roeddwn wedi'i fenthyg iddo.  Wrth chwilio amdano mi wnes i ffeindio potel o hylif wedi'i labelu'n Testosteron.  Dwi'n gwybod bod fy mrawd yn ceisio datblygu cyhyrau, ond dwi rŵan yn poeni y bydd yn gwneud niwed i'w hun neu'n cael ei hun i drwbl.

Dwi heb ddweud wrth neb.  Beth ddylwn i ei wneud?